

Dinas Tyddewi

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: 3.0 milltir (4.8 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Tyddewi 411, *Pâl Gwibio 400, *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio)

CYMERIAD: Hawdd i gymedrol, llwybrau troed naturiol a phalmant, lonydd tawel, llwybrau ceffylau, 0.9 milltir (1.5 km) o gerdded ar isfyrdd, **RHYBUDD** croesi'r briffordd mewn tri lle


CHWILIWCH AM: Eglwys Gadeiriol Tyddewi a'r cwm • Palas yr Esgob • hen fythynnod bach tlws • golygfeydd dros Ynys Dewi, Clegyr Boia (anheddiad hynafol) a Bae Sant Ffraid

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- Llywbr Cylch
- Llywyrau Cyhoeddus
- Maes Parcio
- Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws
- Oriel y Parc



Dinas Tyddewi

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.0 milltir (4.8 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Tyddewi 411, *Pâl Gwibio 400, *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM753252

Mae'n rhaid bod y ddinas fechan hon, gyda'i heglwys gadeiriol ac olion palas yr esgob, yn un o'r llefydd mwyaf swynol ym Mhrydain. Mae'r olygfa o giât yr eglwys gadeiriol yn wefreiddiol gyda'r eglwys gadeiriol ei hun ymhlyg yn y cwm isod ac, i'r gorllewin, amlinelliaid Penmaendewi a Charn Llidi.

Mae'r rhan fwyaf o eglwysi cadeiriol yn dominyddu popeth sydd o'u cwmpas, ond adeiladwyd Tyddewi mewn cwm ar safle cymuned Gristnogol Dewi. Adeg ymosodiadau'r Llychlynwyr un o fanteision y lleoliad oedd ei fod yn anodd dod o hyd iddo.

Sefydlodd Dewi ei gymuned wrth ymyl yr Afon Alun yn y 6ed ganrif. Fe dyfodd mewn pwysigrwydd ar ôl ei farwolaeth ac, am ganrifoedd, fe fu pererinion yn teithio i dalu gwrogaeth i'w gysegrfa.

Canoneiddiwyd Dewi yn 1120 pan ddywedwyd bod dwy bererindod i gysegrfa'r saint cystal ag un i Rufain. Fe ddechreuodd gwaith ar gadeirlan fawr yn lle'r eglwys fonastig gynharach yn 1180.

Ailadeiladwyd, estynnwyd ac addurnwyd y gadeirlan wrth ymyl yr Alun dros y canrifoedd. Ychydig ar draws yr afon mae olion trawiadol Palas yr Esgob o'r 14eg ganrif. Olion sydd wedi bod yma ers yr 16eg ganrif ac mae bellach yn gartref i gymuned o jac-dos swnllyd a busneslyd.

Mae'r llwybr yn dilyn ardal goediog Merry Vale. Enw'r clegyr bach uwchlaw'r cwm yw Clegyr Boia ac mae'n frigiad o graig folcanig hen iawn. Dywedir iddo fod yn gadarnle i wrthwynebydd Dewi Sant, y pennaeth Celtaidd Boia. Llwyddodd Dewi i droi dilynwyr Boia, ond nid y pennaeth paganaidd ei hun. Fe fu farw yn un o ddilynwyr yr hen ffydd.

Mae Tyddewi yn lle swynol ac mae yma ryw 200 o adeiladau rhestredig. Yn y gorffennol, fe'i galwyd yn ddinas oherwydd ei chadeirlan, ond dim ond ers 1995 y mae'r bobl wedi gallu galw eu cymuned yn ddinas yn swyddogol.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

